

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2022 Rhif 445 (Cy. 108)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**Rheoliadau Symud Anifeiliaid  
Anwes yn Anfasnachol (Diwygio)  
(Cymru) 2022**

**NODYN ESBONIADOL**

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

Mae rheoliad 2 yn diwygio Rheoliad (EU) Rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol (EUR 576/2013), er mwyn caniatáu i brawf titr gwrthgorff arall gael ei ddefnyddio ar anifeiliaid anwes sy'n dod i Gymru o'r tu allan i'r DU. Daw'r Rheoliadau hyn i ben ar 7 Hydref 2022.

Mae copi o'r safon ddilysu OIE y cyfeirir ati yn rheoliad 2 ar gael i'w archwilio yn swyddfeydd Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Aseidiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

---

OFFERYNNAU STATUDOL  
CYMRU

---

**2022 Rhif 445 (Cy. 108)**

**ANIFEILIAID, CYMRU**

**IECHYD ANIFEILIAID**

**Rheoliadau Symud Anifeiliaid  
Anwes yn Anfasnachol (Diwygio)  
(Cymru) 2022**

*Gwnaed* 7 Ebrill 2022

*Gosodwyd* *gerbron* *Senedd*  
*Cymru* 8 Ebrill 2022

*Yn dod i rym* 9 Ebrill 2022

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pŵer a roddir gan Erthygl 38 o Reoliad (EU) Rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol(1), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag Erthygl 39(7) o'r Rheoliad hwnnw(2), cyn gwneud y Rheoliadau hyn, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r cyrff a'r personau hynny y mae'n ymddangos i Weinidogion Cymru eu bod yn cynrychioli'r buddiannau y mae'n debygol y bydd y Rheoliadau hyn yn effeithio arnynt yn sylweddol, a'r cyrff neu'r personau eraill hynny y mae Gweinidogion Cymru yn ystyried eu bod yn briodol.

**Enwi, cychwyn, dod i ben, cymhwyso a rychwant**

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Symud Anifeiliaid Anwes yn Anfasnachol (Diwygio) (Cymru) 2022.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 9 Ebrill 2022 a deuant i ben ar 1 Hydref 2022.

---

(1) EUR 576/2013. Diwygiwyd Erthygl 38 gan O.S. 2020/1463. Gweler y diffiniad o "appropriate authority" yn Erthygl 3A, a fewnosodwyd gan O.S. 2020/1388.

(2) Amnewidiwyd Erthygl 39 gan O.S. 2020/1463.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys o ran Cymru ac yn rhychwantu Cymru a Lloegr.

### **Diwygiadau i Reoliad (EU) Rhif 576/2013**

2.—(1) Mae Rheoliad (EU) Rhif 576/2013 Senedd Ewrop a'r Cyngor ar symud anifeiliaid anwes yn anfasnachol wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodiad 4 (gofynion dilysrwydd ar gyfer prawf titradiad gwrthgorff y gynddaredd)—

- (a) ym mhwynt 2(b), ar y diwedd mewnosoder “, except where point 2A applies”;
- (b) ar ôl pwynt 2, mewnosoder—

“2A. This point applies where, the Welsh Ministers have administered a test which measures a level of antibody to rabies virus in serum of the animal tested equal to or greater than 0.3 EU/ml and using an enzyme linked immunosorbent assay method that meets the validation standards set out in Chapter 1.1.6 of the Manual of Diagnostic Tests and Vaccines for Terrestrial Animals 2021 (commonly known as the “OIE validation standard”);(1)”.

*Lesley Griffiths*

Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, un o Weinidogion Cymru  
7 Ebrill 2022

---

(1) Pennod 1.1.6, Manual of Diagnostic Tests and Vaccines for Terrestrial Animals, Sefydliad Iechyd Anifeiliaid y Byd, 2021 (diweddarwyd 24.11.21): [https://www.oie.int/fileadmin/Home/eng/Health\\_standards/ta hm/1.01.06\\_VALIDATION.pdf](https://www.oie.int/fileadmin/Home/eng/Health_standards/ta hm/1.01.06_VALIDATION.pdf).